PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**ARHOLIAD MYNEDIAD**
**IONAWR 2020**

# Hanes - Ewrop ac America

**Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B.**

---

## ADRAN A

1. Astudiaeth o fywydau dynion mawrion a digwyddiadau pwysig yw Hanes. Trafodwch.
2. I ba raddau y mae astudio hanes hefyd yn astudiaeth o'r cof?
3. I ba raddau y mae'r rhai a drechwyd yn guddiedig o olwg hanes?
4. Ym mha ffordd y mae'r cynnydd mewn digideiddio archifau ac adnoddau hanesyddol wedi effeithio ar astudio hanes?
5. A oes rhagfarn ym mhob ffynhonnell wreiddiol?
6. A ddylai haneswyr ddefnyddio'u dychymyg wrth wneud ymchwil?

## ADRAN B

Y Cyfnod Cynnar a'r Oesoedd Canol

7. Beth oedd y prif resymau am sefydlu prifysgolion yn Ewrop yn ystod y ddeuddegfed ganrif?
8. Faint o gyfiawnhad sydd i ddefnyddio'r gair 'brenhiniaeth' wrth drafod y babaeth yn yr oesoedd canol uchel?
9. Dadansoddwch y ffactorau a arweiniodd at y Groesgad gyntaf.
10. Pa mor llwyddiannus fu'r croesgadau yn y Wlad Sanctaidd?
11. 'Trawsnewidiwyd cymdeithas Ewrop yn llwyr gan y Pla Du.' Trafodwch.
12. I ba raddau y cyfrannodd rhyfel at ddatblygiad y wladwriaeth yn Ewrop yn yr oesoedd canol?
13. I ba raddau y gellid dweud i Ewrop fod trwy broses o 'Ewropeiddio' yn yr oesoedd canol?
14. Pa un a gafodd yr effaith fwyaf ar gymdeithas Ewrop yn yr oesoedd canol: rhyfel neu afiechyd?

*… parhad*

Y Cyfnod Modern Cynnar

15. I ba raddau y trawsnewidiwyd Ewrop ar ôl i America gael ei 'darganfod' ym 1492?
16. A oedd Ewropeaid yn euog o hil-laddiad yn y byd newydd ar ôl 1492?
17. I ba raddau yr oedd trefedigaethau Lloegr Newydd yn 'ddinas a osodwyd ar fryn'?
18. Cymharwch a chyferbynnu'r Dadeni yng ngogledd Ewrop a de Ewrop.
19. Beth oedd y rhag-amodau angenrheidiol ar gyfer llwyddiant Protestaniaeth? Eglurwch trwy gyfeirio at enghreifftiau penodol.
20. A oedd y Diwygiad yn anorfod?
21. I ba raddau y mae Martin Luther yn ffigwr hanesyddol anodd?
22. Beth, os rhywbeth, a wrthwynebwyd gan y Gwrth Ddiwygiad?
23. Pa effaith a gafodd twf y diwylliant argraffu ar Ewrop?

Y Cyfnod Modern

24. Beth oedd achosion a chanlyniadau'r Teyrnasiad Braw?
25. Esboniwch orchfygiad y Taleithiau Cyd-ffederal yn Rhyfel Cartref America.
26. Beth arweiniodd at uno'r Almaen yn 1871?
27. Pam y dechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1914 yn hytrach na chyn hynny neu yn ddiweddarach?
28. Pam a sut y datblygodd y rhyfel Ewropeaidd a ddechreuodd yn ystod haf 1914 yn rhyfel byd?
29. Pam y sefydlwyd Gwladwriaeth Weimar?
30. A oedd polisi tramor Rwsia yn y 1920au yn ymwneud mwy â chwyldro neu â diogelwch?
31. Ym mha ffordd y trawsnewidiwyd yr Undeb Sofietaidd gan Stalin yn ei ddegawd cyntaf mewn grym?
32. I ba raddau y gellid ystyried mai Cwymp Wall Street oedd prif achos y dirwasgiad economaidd a effeithiodd ar America yn y 1930au?
33. Ai ar orfodaeth neu ar ganiatâd y seiliwyd y Drydedd Reich?
34. Sut y cafodd ffyniant economaidd Siapan ar ôl y rhyfel ei hyrwyddo gan feddiannaeth yr Unol Daleithiau ar y wlad?
35. Archwiliwch y ffactorau a gyfrannodd at ymyrraeth filwrol yr Unol Daleithiau yn Asia yn ystod y Rhyfel Oer?
36. Trafodwch y ffactorau a arweiniodd at gwymp Mur Berlin ym 1989.
37. I ba raddau y prysurwyd diwedd Rhyfel Fietnam gan y mudiad gwrth-ryfel yn UDA?
38. Pwy sydd wedi ennill y rhyfeloedd masnach rhwng UDA a Tsieina ers diwedd yr 1980au? A Pham?